Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

1 Gorffennaf 2020

Annwyl Julie

Rheoliadau drafft mewn perthynas â Chofrestr Etholiadol 2020

Diolch am eich llythyr ar 16 Mehefin 2020, a oedd yn dilyn eich datganiad ysgrifenedig, *Cyhoeddi Cofrestr Etholiadol 2020*, a gyhoeddwyd ar yr un dyddiad.

Yn eich llythyr rydych yn egluro eich bwriad i osod y rheoliadau drafft perthnasol cyn toriad haf y Senedd, ac y byddai'r rheoliadau'n caniatáu mwy o amser i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi cofrestr etholiadol 2020, hyd at 1 Chwefror 2021, os oes angen.

Yn ystod ein cyfarfod ar 22 Mehefin 2020, nododd yr Aelodau fod yr hyblygrwydd yn cael ei ddarparu oherwydd effaith pandemig Covid-19, ac mae hynny'n ddealladwy. Fodd bynnag, mynegodd yr Aelodau bryder y gallai'r hyblygrwydd sy'n cael ei ddarparu effeithio ar baratoadau a threfniadau eraill ar gyfer ethol Aelodau o'r Senedd a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a gynhelir fis Mai nesaf.

Er mwyn helpu ein gwaith o graffu ar y rheoliadau ar ôl eu gosod, byddai'n ddefnyddiol cael ateb i'r cwestiynau canlynol:

(i) Beth yw eich asesiad o'r risgiau posibl i'r trefniadau etholiadol ar gyfer etholiadau mis Mai y flwyddyn nesaf os na fydd y swyddogion cofrestru etholiadol yn cyhoeddi'r cofrestrau tan 1 Chwefror 2021?
(ii) Pa ymgyngoriadau yr ydych chi wedi'u gwneud mewn perthynas â'r rheoliadau arfaethedig?
(iii) Pa ddyddiadau cyhoeddi eraill wnaethoch chi ystyried eu pennu a pham yr ystyriwyd mai 1 Chwefror 2021 oedd yr opsiwn gorau?

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar o gael ateb gennych mewn da bryd sy'n cynorthwyo ein gwaith craffu ar y rheoliadau.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English